



Neges i aelodau,

Mae'r neges yma wedi'i chylchredeg gan ddefnyddio'r Wefan a chyfryngau Cymdeithasol, yn hytrach na phostio at aelodau unigol, er mwyn diogelu ein Cymdeithas, trwy leihau gwariant diangen ar yr adeg anodd yma.

Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn sefydliad a arweinir gan ei haelodau, a'i ethos yw y gall aelodau deimlo'n falch o'r ffaith eu bod yn cefnogi amcanion elusennol y gymdeithas. Caiff y rhain eu cyflawni trwy ddarparu gwobrau, bwrsariau ac ysgoloriaethau, ynghyd â threfnu a chynnal tri digwyddiad y gymdeithas. Yn ogystal ac yn arbennig o bwysig ar hyn o bryd, mae'r Gymdeithas yn hyrwyddo amaethyddiaeth, coedwigaeth, garddwriaeth a chadwraeth ac yn arbennig gynnyrch Cymreig. Fel y dywedwyd lawer gwaith ac nid yn lleiaf yn hanes dogfenedig y Gymdeithas 'Cymryd Stoc' – Mae'r Gymdeithas yn **'fwy na sioe'**.

Mae aelodau'n gallu ymgysylltu â'r Gymdeithas a dylanwadu arni drwy ein strwythurau Ymgynghorol Sirol a Siroedd Nawdd, a edmygir gan lawer, neu drwy deimlo'n rhan o sefydliad mor wych yn gyffredinol drwy ond dangos cefnogaeth. Mae llawer mwy i aelodaeth unrhyw sefydliad na mynediad at ddigwyddiadau, neu gyfleusterau eraill.

Ar adegau fel hyn cefnogaeth ein haelodau ar draws Cymru ac ymhellach i ffwrdd sy'n sicrhau dyfodol y Gymdeithas. Rydym wedi goroesi dyddiau main o'r blaen, yn fwyaf diweddar argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001. Cefnogaeth barhaol yr aelodau a sicrhodd ein bod wedi gallu dod yn ôl yn dalog, cadw staff, cyfleusterau'r safle a pharhau gwaith gwych y Gymdeithas a chynnal ein digwyddiadau, sy'n annwyl gan bawb. Yn y dyddiau digynsail hyn bydd y dyfodol a wynebwn ar ôl gorfod cau ein drysau ar ein gŵyl a'n sioe haf ein hunain ac i'r rheini sy'n defnyddio ein safle ar gyfer llawer mwy o ddigwyddiadau yn un ansicr.

Mae arnom eisiau diolch ichi am eich cefnogaeth ac yn gobeithio y byddwch chi, ein haelod gwerthfawr yn gallu parhau i gefnogi Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru drwy'r cyfnod anodd hwn ac y byddwch yn mwynhau darllen am y Gymdeithas ym Mlwyddlyfr eleni, sydd bron wedi'i gwblhau.

Mae'ch cefnogaeth yn bwysig inni ac yn hanfodol i ddyfodol tymor hir y Gymdeithas ac mae ein meddyliau a'n dymuniadau gorau gyda chi wrth inni i gyd wynebu'r senario digynsail yma.

Diolch i chi.



Noddwr / Patron: Her Majesty The Queen
Prif Weithredwr / Chief Executive: Steve Hughson
Cadeirydd y Cyngor / Chairman of Council: David Lewis DL FRICS FLAA FRAgS
Company Registration No.: 892851 Wales. Charity Registration No.: 251232 VAT No.: 134 6903 69